

FRÂN WEN

CYDLYNYDD CYNHYRCHU A THECHNEGOL

CYFLOG: £30,000
CYTUNDEB: PARHAOL
DYDDIAD CAU: 30 HYDREF

Please note that the ability to speak Welsh is essential for this post. We welcome applications from fluent Welsh speakers and can offer support to help new Welsh speakers to develop their confidence and use of Welsh in the workplace.

FRANWEN.COM



Mae Frân Wen yn gwmni theatr aml-ddisgyblaethol sy'n creu gwaith beiddgar yn yr iaith Gymraeg sy'n croesi ffiniau celfyddydol.

Rydym yn creu mewn theatrau, trefi a dinasoedd, tirweddau gwledig ac ar blatfformau digidol a wastad yn esblygu i adlewyrchu'r byd o'n cwmpas.

Gyda gwreiddiau dwfn mewn cyd-greu ac arbrofi artistig, rydym wedi ein lleoli yn Nyth, ein cartref creadigol yng nghalon Bangor, Gogledd Cymru.

Rydym yn ysbrydoli, herio ac adlonni gan ddefnyddio theatr fel arf pwerus i wneud heddiw yn fwy disglair ac yfory hyd yn oed yn well.

EIN FFORDD O WEITHIO

Rydyn ni'n:

- dod ag artistiaid a chymunedau at ei gilydd i ganfod y straeon sydd angen eu hadrodd;
- meithrin arloesedd drwy gydweithio traws-gelfyddydol beiddgar;
- annog uchelgais i greu theatr sy'n epig, perthnasol a gwreiddiol.

BETH SY'N EIN DIFFINIO?

Rydyn ni'n ddewr, caredig, chwilfrydig a chydweithredol.

Rydyn ni'n falch o fod yn Gymraeg ac yn Gymreig.

Rydyn ni'n angerddol am gysylltu pobl o bob cefndir; egni, syniadau a gweledigaeth pobl ifanc; cynaliadwyedd a chyfiawnder hinsawdd; a chreu profiadau o'r ansawdd uchaf i gynulleidfaoedd yng Ngogledd Cymru, ledled y wlad ac yn rhyngwladol.



Prif gyfrifoldebau

CYNHYRCHU

Byddwch yn:

- cydlynu elfennau cynhyrchu prosiectau a chynyrchiadau Frân Wen;
- helpu i ddatblygu amserlenni a chynlluniau cynhyrchu, gan gydlynu anghenion technegol, logistaidd ac ymarferol;
- cydlynu get-ins, cyfnodau technegol, perfformiadau a get-outs;
- gweithio gyda lleoliadau, artistiaid, timau creadigol, gweithwyr llawrydd, cyflenwyr a chontractwyr;
- cefnogi'r gwaith o reoli cyllidebau cynhyrchu, hurio a phrynu offer a threfniadau cludiant;
- helpu i baratoi asesiadau risg a dogfennaeth iechyd a diogelwch ar gyfer prosiectau;
- cymryd mwy o gyfrifoldeb cynhyrchu dros brosiectau penodol wrth i'ch profiad ddatblygu
- dilyn gweithdrefnau a pholisiau cynaliadwyedd y cwmni er mwyn sicrhau ein bod yn cyrraedd ein targedau o ran ein ôl-troed carbon

TECHNEGOL

Byddwch yn:

- bod yn bwynt cyswllt technegol allweddol ar gyfer Nyth a gweithgareddau Frân Wen;
- darparu cefnogaeth dechnegol ymarferol i gynyrchiadau, digwyddiadau, ymarferion a gweithgareddau;
- helpu i osod a gweithredu offer goleuo, sain, AV ac offer technegol arall;
- cefnogi artistiaid a thimau creadigol i ddod o hyd i atebion technegol ymarferol;
- gweithio gyda offer a meddalwedd technegol megis Allen & Heath, ETC, Qlab a Dante.
- sicrhau bod offer technegol yn cael ei storio, ei gynnal, ei brofi a'i ddefnyddio'n ddiogel.

NYTH, IECHYD A DIOGELWCH

Byddwch yn:


- cymryd cyfrifoldeb gweithredol dros gydlynu a gweithredu trefniadau iechyd a diogelwch Nyth, gyda chefnogaeth y tîm rheoli ac arbenigwyr allanol lle bo angen;
- helpu i sicrhau bod asesiadau risg, gweithdrefnau tân, gwiriadau a chofnodion perthnasol yn gyfredol;
- cadw golwg ar gyflwr Nyth a chydlynu gwaith cynnal a chadw rheolaidd ac ymatebol;
- cydlynu contractwyr, gwasanaethu, profion ac archwiliadau perthnasol;
- helpu i sicrhau bod Nyth yn ddiogel, yn hygyrch, yn groesawgar ac yn barod ar gyfer y gweithgareddau sy'n digwydd ynddo.

ASEDAU

Byddwch yn:

- cynnal cofrestr gyfredol o asedau ac offer cyffredinol a thechnegol Frân Wen;
- sicrhau bod offer ac asedau'n cael eu storio, eu defnyddio a'u cynnal yn briodol;
- monitro cyflwr offer a nodi anghenion atgyweirio, amnewid neu fuddsoddi;
- helpu i ddatblygu systemau effeithiol ar gyfer rheoli a symud offer.

Fel aelod o dîm Frân Wen byddwch hefyd yn cyfrannu'n weithredol at fywyd Nyth, gweithio'n gydweithredol ar draws y cwmni a gweithio yn unol â pholisïau a gweithdrefnau Frân Wen.



Chi

Rydyn ni'n chwilio am rywun ymarferol, trefnus, dibynadwy a chwilfrydig sydd â rhywfaint o brofiad perthnasol mewn theatr, technegol, cynhyrchu neu berfformiadau byw ac sy'n barod am y cam nesaf.

Does dim rhaid i chi fod yn Rheolwr Cynhyrchu profiadol nac yn arbenigwr ym mhob elfen o'r swydd.

Efallai eich bod yn dechnegydd theatr sydd eisiau datblygu mwy o brofiad cynhyrchu. Efallai eich bod wedi gweithio ym maes rheoli llwyfan neu gynhyrchu ac mae gennych sgiliau technegol da. Neu efallai eich bod wedi gweithio ar draws nifer o'r meysydd hyn heb ddilyn un llwybr penodol.

Yr hyn sy'n bwysig yw eich bod yn deall sut mae theatr a pherfformiadau byw yn gweithio, yn mwynhau datrys problemau, yn gallu cynllunio ymlaen llaw ac yn barod i gymryd cyfrifoldeb.

Bydd angen i chi:

- fod â rhywfaint o brofiad proffesiynol neu ymarferol perthnasol mewn theatr, cynhyrchu, digwyddiadau byw neu dechnegol;
- meddu ar wybodaeth ymarferol dda am dechnegol theatr;
- gallu cynllunio, trefnu a blaenoriaethu gwaith;
- gallu gweithio'n annibynnol a gweld tasgau drwodd;
- bod yn ddatryswr problemau ymarferol a digynnwrf;
- bod â dealltwriaeth sylfaenol o iechyd a diogelwch;

- gallu gweithio'n hyderus ac yn gydweithredol gydag amrywiaeth o bobl;
- bod yn barod i ddysgu, datblygu a chymryd mwy o gyfrifoldeb;
- sgiliau cyfathrebu gwych yn y Gymraeg a'r Saesneg

Byddai profiad o gydlyn cynyrchiadau, rheoli llwyfan, goleuo, sain neu AV, cynyrchiadau teithiol neu safle-benodol, neu iechyd a diogelwch yn fantais ond nid ydym yn disgwyl i chi feddu ar bob un o'r rhain.

Byddwn yn cefnogi'r person cywir i ddatblygu ei wybodaeth a'i sgiliau drwy hyfforddiant a datblygiad proffesiynol perthnasol.





Beth fyddwn ni'n ei gynnig?

Byddwch yn ymuno â thîm creadigol, cefnogol ac uchelgeisiol ac yn chwarae rhan allweddol wrth wireddu rhaglen Frân Wen.

Bydd y rôl yn cynnig:

- cyfle i ddatblygu eich profiad ym maes cynhyrchu a rheoli cynhyrchu;
- profiad uniongyrchol o ystod eang o gynyrchiadau proffesiynol;
- cyfrifoldeb cynyddol wrth i'ch profiad a'ch hyder ddatblygu;
- hyfforddiant a datblygiad proffesiynol mewn meysydd perthnasol;
- cyfle i ddatblygu eich sgiliau technegol a bod yn rhan o ddyfodol Nyth a Frân Wen.

Amodau a thelerau

LLEOLIAD:	Nyth, Bangor, gyda gwaith mewn lleoliadau eraill yn ôl gofynion y rhaglen
CYTUNDEB:	Llawn amser. Parhaol
CYFLOG:	£30,000 y flwyddyn
ORIAU:	38 awr yr wythnos, gan gynnwys gwaith gyda'r nos ac ar benwythnosau
IAITH:	Mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon
DYDDIAD CYCHWYN:	Mor fuan â phosib.
GWYLIAU BLYNYDDOL:	25 diwrnod y flwyddyn yn cynyddu i 30 diwrnod y flwyddyn wedi 5 mlynedd o wasanaeth. Gwyliau statudol yn ychwanegol.
CYFNOD PRAWF:	Bydd y penodiad yn amodol ar gyfnod prawf llwyddiannus o chwe mis.
RHYBUDD I ADAEL:	1 mis o rybudd yn ystod y cyfnod prawf a 2 fis wedi hynny.
PENSIWN:	Gweinyddir Cronfa Bensiwn Gwynedd a weinyddir gan Cyngor Gwynedd.
BUDDION ERAILL:	Cynllun Llesiant Staff Gweithio hyblyg. Tocynnau ar gyfer cynrychiadau a digwyddiadau celfyddydol.

Mae'r swydd hon wedi ei heithrio o'r Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyr (1974). Bydd y cyflogwr yn gwneud ymholiadau trwy'r Gwasanaeth Diogelu a Gwahardd ynglŷn a gweithio gyda phlant, poblifanc neu bobl sy'n agored i niwed.

Proses ymgeisio


Rydyn ni eisiau sicrhau proses ymgeisio syml a hygyrch.

Anfonwch:

1. Eich **CV gyfredol**.
2. Cais byr sy'n dweud wrthym:
 - pam mae'r cyfle hwn yn eich cyffroi;
 - beth fyddwch chi'n ei gyfrannu at y rôl;
 - beth hoffech chi ei ddatblygu;
 - am brosiect, cynhyrchiad neu brofiad ymarferol sy'n dangos sut rydych yn mynd ati i wneud i bethau ddigwydd

Gallwch gyflwyno eich cais yn ysgrifenedig (dim mwy na 3 ochr A4), ar fideo (dim mwy na 5 munud) neu mewn cyfrwng arall sy'n gweithio i chi.

3. [Ffurflen Monitro Cyfleoedd Cyfartal](#)



Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y swydd, os oes angen cymorth arnoch i gyflwyno cais, neu os hoffech gael y wybodaeth mewn fformat gwahanol, cysylltwch â Nia Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol nia@franwen.com

Anfonwch yr wybodaeth i sylw:

Nia Jones
Cyfarwyddwr Gweithredol
Frân Wen
Nyth
Ffordd Garth
Bangor
LL57 2RW

neu ar e-bost at: nia@franwen.com



DYDDIADAU ALLWEDDOL

Dyddiad Cau:	30 Hydref
Dyddiad cyfweiliad:	5 Tachwedd
Dyddiad cychwyn:	Mor fuan â phosib

DATA A PHREIFATRWYDD

Bydd eich cais ac unrhyw wybodaeth bersonol cysylltiedig yn cael ei storio a'i brosesu yn unol â'n Polisi Data a'i ddinistrio ar ôl 6 mis. Os ydych yn cael eich penodo a'ch cyflogi gennym, bydd yr wybodaeth a gyflwynwch yn cael ei gadw'n didogel a bydd yn rhan o'ch cofnod cyflogaeth.

CYFLEON CYFARTAL

Os ydych angen gwybodaeth mewn fformat gwahanol neu os oes gennych chi unrhyw ofynion mynediad ar gyfer y cyfweiliad, cysylltwch â Nia Jones nia@franwen.com.

Nid yw Frân Wen yn caniatáu gwahaniaethu ar sail rhyw, anabledd, hil, cefndir ethnig neu economaidd-gymdeithasol, oedran, amgylchiadau teuluol, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth neu wahaniaeth arall ac mae'n ymroi i weithio gydag amrywiaeth mewn ffordd cadarnhaol.

Mae Frân Wen yn croesawu ac yn annog ceisiadau gan grwpiau o bobl sydd wedi'u tangynrychioli gan gynnwys grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig a phobl ag anableddau. Bydd egwyddodion cystadleuaeth deg ac agored yn berthnasol a phenodir ar sail teilyngdod.

